WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Gwella Blynyddol 2016-17 Cyngor Sir Ynys Môn

Dyddiad cyhoeddi: Mehefin 2017
Cyfeirnod y ddogfen: 337A2017



Paratowyd yr Adroddiad Gwella Blynyddol hwn ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Gwilym Bury ac Andy Bruce o dan gyfarwyddyd Huw Rees.

**Huw Vaughan Thomas**
**Auditor General for Wales**
**Wales Audit Office**
**24 Cathedral Road**
**Cardiff**
**CF11 9LJ**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth a chaiff ei benodi gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru, sef bwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac er mwyn monitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, gwasanaethau prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae hefyd yn cynnal astudiaethau gwerth am arian llywodraeth leol ac yn asesu cydymffurfiaeth â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'r cyrff a noddir ganddi a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol a staff Swyddfa Archwilio Cymru yn anelu at ddarparu adroddiadau cymesur sy'n canolbwyntio ar y cyhoedd ar stiwardiaeth adnoddau cyhoeddus a thrwy wneud hynny, feithrin dealltwriaeth a hyrwyddo gwelliant.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay. Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg

# Cynnwys


## Adroddiad cryno

| | |
|---|---|
| Gwaith archwilio perfformiad 2016-17 | 4 |
| Mae'r Cyngor yn bodloni ei ofynion statudol mewn perthynas â gwelliant parhaus | 4 |
| Argymhellion a chnigion ar gyfer gwella | 5 |
| Gwaith archwilio, rheoleiddio ac arolygu y cyflwynwyd adroddiadau arno yn ystod 2016-17 | 6 |

## Atodiadau

| | |
|---|---|
| Atodiad 1 – statws yr adroddiad hwn | 14 |
| Atodiad 2 – llythyr Archwilio Blynyddol | 15 |
| Atodiad 3 – argymhellion adroddiadau cenedlaethol 2016-17 | 17 |

# Adroddiad cryno

## Gwaith archwilio perfformiad 2016-17

1 Wrth bennu'r amrywiaeth o waith a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn, gwnaethom ystyried graddau'r wybodaeth archwilio ac arolygu a gasglwyd yn ogystal â ffynonellau eraill o wybodaeth a oedd ar gael, gan gynnwys systemau adolygu a gwerthuso Cyngor Sir Ynys Môn (y Cyngor) ei hun. Yn ystod 2016-17, ymgymerwyd â gwaith asesu gwelliant ym mhob cyngor o dan dair thema: llywodraethu, y defnydd o adnoddau a chynllunio gwelliant ac adrodd arno. Mewn rhai cynghorau, ategwyd y gwaith hwn gan archwiliadau lleol ar sail risg, a nodir yng Nghynllun Archwilio 2016-17.

2 Nodir y gwaith a gyflawnwyd ers yr Adroddiad Gwella Blynyddol diwethaf, gan gynnwys gwaith y rheoleiddwyr perthnasol, yn Arddangosyn 1.

## Mae'r Cyngor yn bodloni ei ofynion statudol mewn perthynas â gwelliant parhaus

3 Yn seiliedig ar y gwaith a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr perthnasol, ac yn gyfyngedig i'r gwaith hwnnw, cred yr Archwilydd Cyffredinol fod y Cyngor yn debygol o fodloni gofynion y Mesur Llywodraeth Leol (2009) yn ystod 2017-18.

## Argymhellion a chynigion ar gyfer gwella

4 O ystyried yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir gan y Cyngor a'r heriau y mae'n eu hwynebu, byddai'n anarferol pe na baem wedi dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

- wneud cynigion ar gyfer gwella – os caiff cynigion eu gwneud i'r Cyngor, byddem yn disgwyl iddo weithredu arnynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar yr hyn sy'n digwydd;
- gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella - os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud, mae'n rhaid i'r Cyngor baratoi ymateb i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod gwaith;
- cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi adroddiad a gwneud argymhellion; ac
- argymell y dylai Gweinidogion Llywodraeth Cymru ymyrryd mewn rhyw ffordd.

5 Yn ystod y flwyddyn, ni wnaeth yr Archwilydd Cyffredinol unrhyw argymhellion ffurfiol. Fodd bynnag, gwnaed nifer o gynigion ar gyfer gwella ac ailadroddir y rhain yn yr adroddiad hwn. Byddwn yn monitro cynnydd yn eu herbyn ac argymhellion perthnasol a wnaed yn ein hadroddiadau cenedlaethol (Atodiad 3) fel rhan o'n gwaith asesu gwelliant.

# Gwaith archwilio, rheoleiddio ac arolygu y cyflwynwyd adroddiadau arno yn ystod 2016-17

## Arddangosyn 1: gwaith archwilio, rheoleiddio ac arolygu y cyflwynwyd adroddiadau arno yn ystod 2016-17

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|
| **Llywodraethu** | | | |
| Mai 2017 | **Llywodraethu da wrth benderfynu ar newidiadau i wasanaethau**<br>Adolygiad o drefniadau llywodraethu'r Cyngor ar gyfer penderfynu ar newidiadau i wasanaethau. | Mae trefniadau llywodraethu'r Cyngor ar gyfer penderfynu ar newidiadau sylweddol i wasanaethau yn effeithiol ar y cyfan, ond mae'n cydnabod y gellid eu hatgyfnerthu ymhellach.<br>Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:<br>• mae trefniadau llywodraethu'r Cyngor ar gyfer penderfynu ar newidiadau sylweddol i wasanaethau yn effeithiol ar y cyfan, ond mae'n cydnabod y gellid eu hatgyfnerthu ymhellach;<br>• mae gan y Cyngor weledigaeth a strategaeth glir ar gyfer penderfynu ar newidiadau i wasanaethau;<br>• mae rolau gwneud penderfyniadau yn cael eu deall ond gallai prosesau ar gyfer byrddau trawsnewid a phwyllgorau craffu'r Cyngor arwain at ychydig o ddyblygu;<br>• mae achosion busnes dros newidiadau i wasanaethau yn rhoi ystod dda o wybodaeth ond gellid diffinio effaith cynigion yn y tymor hwy yn well;<br>• mae gan y Cyngor weithdrefnau eglur sy'n annog rhanddeiliaid i fod yn rhan o brosesau gwneud penderfyniadau ac mae wrthi'n atgyfnerthu ei drefniadau ymgysylltu; | Atgyfnerthu'r trefniadau llywodraethu drwy wneud y canlynol:<br>P1 Cyflwyno asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb ar gam cynnar o'r broses gwneud penderfyniadau ac i safon gyson er mwyn helpu'r Cyngor i ddadansoddi ei gynigion ar gyfer newid gwasanaethau yn fwy effeithioll<br>P2 Datblygu trefniadau ar gyfer monitro effaith a manteision newidiadau i wasanaethau, gan gynnwys nodi'n benodol yr hyn a gaiff ei fonitro, ble y caiff ei fonitro a phwy fydd yn gyfrifol am wneud hynny. |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|
| | | • mae'r Cyngor yn monitro effaith ei benderfyniadau i newid gwasanaethau ond gallai wneud rhagor i adolygu a myfyrio ar y manteision ar ôl iddynt gael eu rhoi ar waith; ac<br>• mae'r Cyngor yn adolygu effeithiolrwydd ei drefniadau gwneud penderfyniadau bob blwyddyn ac mae'n ymwybodol o feysydd lle y gall wella. | |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|
| Rhagfyr 2016 | **Llythyr archwilio blynyddol 2015-16**<br>Llythyr sy'n crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n deillio o gyfrifoldebau statudol yr Archwilydd Cyffredinol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'i gyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio. Mae'r Llythyr Archwilio Blynyddol yn Atodiad 2 yr adroddiad hwn. | • cydymffurfiodd y Cyngor â'i gyfrifoldebau yn ymwneud ag adroddiadau ariannol a defnyddio adnoddau;<br>• mae gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau;<br>• mae'r archwiliad o'r cyfrifon wedi'i gwblhau ar 30 Medi 2016; aa<br>• nid yw'r gwaith a wnaed hyd yma yn ardystio hawliadau a ffurflenni grant wedi nodi materion sylweddol a fyddai'n effeithio ar gyfrifon 2016-17 na systemau ariannol allweddol. | Dim |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|
| Mawrth 2017 | **Cynllunio arbedion**<br>Adolygiad o drefniadau'r Cyngor ar gyfer sicrhau arbedion ariannol, gan gynnwys pa mor dda y mae'n cyflawni'r arbedion gofynnol ac a oes ganddo ddulliau cadarn o gynllunio, rheoli a chyflawni arbedion cyllidebol, ar gyflymder sy'n cefnogi cydnerthedd ariannol. | Er bod gan y Cyngor fframwaith cynllunio ariannol sy'n gwella, ceir cynlluniau arbedion sydd heb ddatblygu digon, ac mae'n bosibl na fyddant yn cefnogi cydnerthedd ariannol yn llawn yn y dyfodol.<br>Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:<br>**Arbedion a gyflawnwyd yn 2015-16**<br>• Mae'r Cyngor wedi nodi ei fod wedi cyflawni 82% o'i arbedion arfaethedig ar gyfer 2015-16 yn ystod y flwyddyn a gall ddangos bod arbedion unigol wedi cael eu cyflawni.<br>**Trefniadau cynllunio ariannol**<br>• Mae'r Cyngor yn parhau i atgyfnerthu ei fframwaith cynllunio ariannol ond nid oes digon o gysylltiadau rhwng ei Gynllun Corfforaethol a'i Gynllun Ariannol Tymor Canolig ac nid oes ganddo gynlluniau arbedion dangosol ar gyfer y dyfodol na dull corfforaethol o gynhyrchu incwm.<br>**Cynllun Arbedion 2016-17**<br>• Mae'r Cyngor yn rhagweld y caiff 83% o'i gynlluniau arbedion ar gyfer 2016-17 ei gyflawni ond nid oes digon o fanylion mewn rhai cynlluniau arbedion nac amserlenni cyflawni realistig. | C1 Atgyfnerthu'r trefniadau cynllunio ariannol drwy wneud y canlynol:<br>• datblygu Polisi Cynhyrchu Incwm/Codi Tâl;<br>• datblygu cynlluniau arbedion dangosol i gwmpasu cyfnod y Cynllun Ariannol Tymor Canolig;<br>• ymgorffori gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015;<br>• gwella'r cysylltiadau rhwng ei Gynllun Corfforaethol a'i Gynllun Ariannol Tymor Canolig; ac<br>• atgyfnerthu trefniadau ar gyfer monitro cynnydd arbedion nad ydynt wedi'u cyflawni yn y dyfodol. |
| **Archwilio perfformiad lleol ar sail risg** | | | |
| **Adolygiad o'r Trefniadau Rheoli Absenoldeb** | | | |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|
| Mai 2017 | **Adolygiad o'r Trefniadau Rheoli Presenoldeb** Adolygiad o drefniadau Rheoli Presenoldeb y Cyngor. | Mae'r Cyngor wedi gwella ei drefniadau corfforaethol ar gyfer rheoli presenoldeb yn sylweddol drwy gyflwyno polisïau a gweithdrefnau absenoldeb mwy cadarn.<br><br>Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:<br>• mae'r Cyngor wedi cryfhau ei bolisïau a'i weithdrefnau ar gyfer rheoli presenoldeb;<br>• mae'r Cyngor wedi blaenoriaethu rheoli presenoldeb ac wedi cryfhau ei ddull gweithredu, sy'n gadarn ac yn heriol; ac<br>• mae'r ffordd y mae'r Cyngor yn rheoli presenoldeb staff wedi gwella'n sylweddol ac mae'n rhagweithiol o ran dwyn ysgolion i gyfrif am reoli presenoldeb. | C1 Er mwyn gosod yr her angenrheidiol i ysgolion mewn perthynas â'u trefniadau rheoli presenoldeb, dylai'r Cyngor barhau i sicrhau bod ganddo'r gallu i roi data cymharol ar gyfraddau absenoldeb athrawon a staff nad ydynt yn athrawon i bob ysgol yn fisol a rhoi'r cymorth ac arweiniad angenrheidiol i bob ysgol allu rhoi trefniadau rheoli presenoldeb ar waith.<br><br>C2 Dylai'r Cyngor ystyried perfformiad ysgolion o ran presenoldeb yn ei adroddiadau chwarterol i'r Pwyllgor Gweithredol a'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol ar wasanaethau'r Cyngor. |
| Mehefin 2016 | **Archwiliad cynllun gwella blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru** Adolygiad o gynlluniau cyhoeddedig y Cyngor ar gyfer cyflawni amcanion gwella. | Mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'i ddyletswyddau cynllunio gwelliant statudol. | Dim |
| Tachwedd 2016 | **Archwiliad o asesiad o berfformiad blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru** Adolygiad o asesiad cyhoeddedig blynyddol y Cyngor o'i berfformiad. | Mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'i ddyletswyddau cynllunio gwelliant statudol. | Dim |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|
| **Adolygiadau gan gyrff arolygu a rheoleiddio** | | | |
| Mawrth 2017 | **Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) Arolygiad o Wasanaethau Plant** | Gellir gweld yr adroddiad drwy ddilyn y ddolen hon: Arolygiad o Wasanaethau Plant: Cyngor Sir Ynys Môn<br>**Canfyddiadau**<br>A. Trefniadau Mynediad<br>Nodwyd bod trefniadau mynediad at wasanaethau ataliol a statudol wedi'u sefydlu ac yn cael eu cynnig yn ddwyieithog. Roedd y meini prawf ar gyfer gwasanaethau tîm o amgylch y teulu wedi'u hymsefydlu'n dda ac yn cael eu rhannu â phartneriaid. Fodd bynnag, nid oedd gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chyngor yr awdurdod lleol, na'i drefniadau atal, wedi'u datblygu'n ddigonol. Roedd y Cyngor yn ymatebol lle roedd arwydd uniongyrchol bod plentyn mewn perygl, ond roedd y ddealltwriaeth o drothwyon rhwng partneriaid a gwasanaethau plant yn anghyson. Roedd angen gwaith amlasiantaethol ar frys i fynd i'r afael â hyn. Roedd y wybodaeth am atgyfeiriadau a gafwyd gan bartneriaid yn wael. Roedd gwasanaethau plant yn ddiwyd o ran casglu gwybodaeth sydd ar goll ond roedd dadansoddiadau o (at)gyfeiriadau yn amrywiol ac, yn rhy aml, nid oedd achosion a ddylai fod wedi symud ymlaen i asesiad wedi gwneud hynny. Roedd yn amlwg bod yr holl staff wedi ymrwymo i wella bywydau'r plant a'r teuluoedd roeddent yn gweithio gyda nhw, ond nid oedd gan y tîm dyletswydd ac asesiad ddigon o gapasiti, profiad na chymorth gan uwch reolwyr i gyflawni canlyniadau o ansawdd da i blant a theuluoedd. Nid oedd rheolwyr yn goruchwylio prosesau gwneud penderfyniadau yn ddigonol. | **Argymhellion**<br>Argymhellion â blaenoriaeth:<br>1. Dylai'r awdurdod barhau â'i ymrwymiad i ddatblygu fframwaith ar gyfer cyflawni gwaith ataliol gyda phlant a theuluoedd a fydd yn darparu gwasanaeth integredig ac yn rhoi help cynnar sy'n oedi'r angen am ofal a chymorth.<br>2. Dylid sefydlu trefniadau sicrhau ansawdd a hyfforddi effeithiol ac amlasiantaethol er mwyn sicrhau bod staff a phartneriaid yn deall y trothwyon asesu ar gyfer gwasanaethau plant a bod y trothwyon hynny'n cael eu cymhwyso'n gyson; dylai hyn gynnwys llunio protocol trothwyon amddiffyn plant amlasiantaethol gan ymgorffori canllawiau diweddar Llywodraeth Cymru.<br>3. Dylai uwch arweinwyr gwasanaethau cymdeithasol a'r heddlu barhau i gydweithio'n rhagweithiol â'i gilydd er mwyn sicrhau gwelliannau i ansawdd, cysondeb ac amseroldeb ymholiadau yn ymwneud ag amddiffyn plant. |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|
| | | B. Diogelu ac asesu<br>Roedd ansawdd ac amseroldeb ymholiadau yn ymwneud ag amddiffyn plant yn anghyson. Nid oedd y broses ar gyfer trefnu trafodaethau ynghylch strategaeth yn effeithiol ac nid oedd yn cynnwys gwybodaeth gan yr holl bartneriaid perthnasol fel mater o drefn. Roedd trefniadau newydd wedi cael eu cadarnhau ac roedd angen gweithredu ar frys i sicrhau bod y rhain yn cael eu deall yn glir, eu rhoi ar waith yn gyson ac, o ganlyniad i hynny, bod achosion o oedi annerbyniol mewn perthynas ag ymholiadau yn ymwneud ag amddiffyn plant yn cael eu hosgoi yn y dyfodol. Roedd ansawdd yr asesiadau yn amrywio; pan oeddent yn dda, roedd tystiolaeth o ddefnyddio ystod o wybodaeth i lywio'r dadansoddiad risg. Roedd gweithwyr cymdeithasol yn ymdrechu'n barhaus i gael gwybod dymuniadau a theimladau'r plant ac roedd rhywfaint o ddefnydd da yn cael ei wneud o eiriolaeth anffurfiol er mwyn helpu plant i ddefnyddio'r cymorth sydd ar gael yn y ffordd orau bosibl. Fodd bynnag, roedd yr arfer da ym maes gwaith cymdeithasol a welwyd yng nghynnwys rhai asesiadau yn cael ei danseilio gan yr ystod gyfyngedig o adnoddau sydd ar gael i ategu gwaith gyda phlant a theuluoedd a diffyg rheolwyr a staff gweithredol sefydlog sy'n meddu ar y profiad digonol yn yr holl dimau gofal plant hirdymor. Am fod y gweithiwr cymdeithasol yn newid yn aml, roedd momentwm yn cael ei golli gan effeithio ar yr ymgysylltu â theuluoedd. Er bod y rhan fwyaf | 4. Dylai'r Cyngor barhau i helpu uwch arweinwyr i wella eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r cymhlethdodau a'r risgiau sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau plant er mwyn eu sicrhau eu hunain a sicrhau partneriaid, staff a chymunedau bod eu cyfrifoldebau'n cael eu cyflawni yn y ffordd fwyaf effeithiol bosibl.<br>5. Dylid datblygu strategaeth gadarn ar gyfer y gweithlu ar unwaith gan gynnwys nodau byrdymor, tymor canolig a hirdymor ar gyfer recriwtio a chadw gweithwyr cymdeithasol.<br>6. Dylid adolygu'r trefniadau ar gyfer rheolwyr timau ac uwch ymarferwyr er mwyn sicrhau bod gan reolwyr y gallu i oruchwylio'r penderfyniadau a wneir gan staff a'r her a'r cyfarwyddiadau a roddir iddynt ym mhob rhan o'r gwasanaeth, a hynny mewn modd effeithiol a chyson; dylai rhaglen arwain a datblygu fod ar gael er mwyn meithrin cydnerthedd.<br>7. Dylai uwch reolwyr gymryd camau i sicrhau bod staff rheng flaen yn cael eu goruchwylio'n amlach, yn fwy cyson ac yn well; rhaid rhoi system ar waith i sicrhau cydymffurfiaeth ac ansawdd. |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|
| | | o asesiadau'n cael eu rhannu â phlant a theuluoedd, nid oeddent yn deall diben y cymorth, gofal a chymorth a/neu amddiffyniad yr oeddent yn ei gael yn ddigon clir oherwydd diffyg ymgysylltu effeithiol. Roedd ansawdd y gwaith cofnodi drwy gydol y broses asesu yn wael, gan rwystro'r rhai a oedd yn ymgymryd â'r gwaith rhag gallu deall yr anghenion a'r risgiau sy'n gysylltiedig â phlant a theuluoedd yn gyflym. Roedd hyn yn arbennig o bwysig o ystyried y trosiant staff uchel o fewn y gweithlu. Nid oedd rheolwyr yn goruchwylio ansawdd y gwaith asesu yn ddigon cadarn o ran herio a rheoli ansawdd. | Argymhellion yn ystod y 12 mis nesaf:<br><br>8. Rhaid i'r gefnogaeth wleidyddol a chorfforaethol gref i wasanaethau plant barhau er mwyn sicrhau bod y gwelliannau sydd eu hangen i'r gwasanaeth yn cael blaenoriaeth, bod y gwelliannau'n cael eu gwneud yn gyflymach a bod y cyflymder hwnnw'n cael ei gynnal.<br><br>9. Dylid sefydlu trefniadau amlasiantaethol i gryfhau cynlluniau gweithredol i gefnogi cydweithrediad effeithiol o ran gwaith partneriaid statudol o gwblhau Fframweithiau Asesu ar y Cyd.<br><br>10. Dylid gwella ansawdd asesiadau a chynlluniau er mwyn sicrhau eu bod o ansawdd da yn gyson, gyda ffocws clir ar anghenion, risgiau a chryfderau plant a theuluoedd a bod y canlyniadau, amserlenni ac atebolrwydd a ddymunir ar gyfer y camau gweithredu yn glir.<br><br>11. Dylid gwella ansawdd a chysondeb y gwaith o gadw cofnodion; dylai'r holl staff a rheolwyr sicrhau bod eu cofnodion o ansawdd da a'u bod yn gyfredol ac wedi'u storio mewn modd systematig. |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|
| | | | 12. Dylai'r awdurdod lleol a phartneriaid gydweithio i ddatblygu dull cydlynol o gasglu a dadansoddi gwybodaeth am anghenion cymunedau, gan gynnwys llais plant a theuluoedd. Dylid defnyddio hyn i lywio'r gwaith o lunio cynlluniau strategol er mwyn cysoni'r ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu gan wasanaethau gwybodaeth, cyngor a chymorth, y sector ataliol a gwasanaethau statudol yn effeithiol.<br>13. Mae angen i drefniadau rheoli perfformiad a sicrhau ansawdd, gan gynnwys craffu ar y galw am y gwasanaeth ac archwilio ansawdd ymarfer yn rheolaidd, gael eu gwreiddio fel bod gan reolwyr ar bob lefel wybodaeth amserol, perthnasol a chywir am berfformiad a sicrhau ansawdd i'w galluogi i wneud eu gwaith yn effeithiol a chyflawni gwelliannau.<br>14. Dylid monitro llwythi gwaith ac adroddiadau ar ansawdd perfformiad gweithwyr yn barhaus er mwyn sicrhau bod digon o gapasiti i weithwyr allu ymgysylltu'n effeithiol â phlant a'u teuluoedd. |

# Atodiad 1

## Statws yr adroddiad hwn

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal asesiad gwella blynyddol sy'n edrych i'r dyfodol, a chyhoeddi adroddiad gwella blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae gan awdurdodau gwella (a ddiffinnir fel cynghorau lleol, parciau cenedlaethol, ac awdurdodau tân ac achub) ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth arfer eu swyddogaethau'.

Mae'r asesiad gwella blynyddol yn ystyried pa mor debygol ydyw y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Hefyd, yr asesiad yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Staff Swyddfa Archwilio Cymru, ar ran yr Archwilydd Cyffredinol, sy'n llunio'r adroddiad gwella blynyddol. Mae'r adroddiad yn cyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan adran 24 o'r Mesur, drwy grynhoi ei waith archwilio ac asesu mewn adroddiad gwella blynyddol cyhoeddedig ar gyfer pob awdurdod. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 19 i gyflwyno adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal asesiad gwella o dan adran 18 ac yn nodi a yw o'r farn (o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17) fod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio gwelliant o dan adran 15.

O dan rai amgylchiadau, gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), y cyflwynir adroddiad arnynt i'r awdurdod a'r Gweinidogion, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Un o weithgareddau atodol pwysig yr Archwilydd Cyffredinol yw cydgysylltu gwaith asesu a gwaith rheoleiddio (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

# Atodiad 2

## Llythyr Archwilio Blynyddol

Dr Gwynne Jones
Y Cynghorydd Ieuan Williams
Swyddfeydd y Cyngor
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7TW

Cyf: IH15-16

Dyddiad: 1 Rhagfyr 2016

Annwyl Gwynne ac Ieuan

### Llythyr Archwilio Blynyddol – Cyngor Sir Ynys Môn 2015-16

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n deillio o'm cyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'm cyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

#### Cydymffurfiodd y Cyngor â'i gyfrifoldebau yn ymwneud ag adroddiadau ariannol a defnyddio adnoddau

Cyfrifoldeb y Cyngor yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad o Gyfrifon yn unol â gofynion perthnasol; a
- sefydlu ac adolygu'n barhaus drefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau; a
- rhoi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r broses o archwilio'r cyfrifon.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn paratoi eu datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Cod hwn yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Ar 30 Medi 2016, rhoddais farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa a thrafodion ariannol y Cyngor. Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad Cyfrifon. Nodwyd y materion allweddol a oedd yn deillio o'r archwiliad o gyfrifon i aelodau'r Pwyllgor Archwilio yn fy adroddiad ar yr Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol ar 21 Medi 2016. Nid oes angen i mi ddwyn unrhyw beth at eich sylw yn y llythyr hwn.

Rwy'n fodlon bod gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau.

Mae fy ystyriaeth o drefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi bod yn seiliedig ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon ac rwyf hefyd wedi dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn tynnu sylw at y meysydd lle nad yw effeithiolrwydd y trefniadau hyn wedi'i brofi eto neu lle y gellid gwneud gwelliannau pan fydd yn cyhoeddi ei Adroddiad Gwella Blynyddol.

Cyhoeddais dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o'r cyfrifon wedi'i gwblhau ar 30 Medi 2016.

Nid yw'r gwaith a wnaed gennyf hyd yma yn ardystio hawliadau a ffurflenni grant wedi nodi materion sylweddol a fyddai'n effeithio ar gyfrifon 2016-17 na systemau ariannol allweddol.

Ar hyn o bryd, mae'r ffi archwilio ariannol ar gyfer 2015-16 yn cael ei drafod gyda'r Swyddog Adran 151 oherwydd y gwaith ychwanegol sy'n ofynnol i gwblhau'r archwiliad.

Yn gywir

**Ian Howse**

**Dros ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru**

# Atodiad 3

## Argymhellion adroddiadau cenedlaethol 2016-17

### Arddangosyn 2: argymhellion adroddiadau cenedlaethol 2016-17

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Awst 2016 | Cydnerthedd Ariannol Awdurdodau Lleol Cymru 2015-16 | Yn ein hadroddiad yn 2014-15 (**Cydnerthedd Ariannol Cynghorau yng Nghymru**, Ebrill 2015) gwnaethom nifer o argymhellion ar gyfer awdurdodau lleol. Roedd llawer o'r argymhellion hyn yn dal i fod yn berthnasol ac roedd angen i awdurdodau wneud rhagor o waith i fynd i'r afael â hwy yn ystod 2016-17. At hynny, gwnaethom hefyd yr argymhellion canlynol ar sail ein hadolygiad mwy diweddar:<br>A1 Dylai awdurdodau lleol gryfhau eu trefniadau cynllunio ariannol trwy:<br>• ddatblygu cysylltiadau mwy eglur rhwng y Cynllun Ariannol Tymor Canolig a'u blaenoriaethau corfforaethol a'u cynlluniau gwasanaeth;<br>• alinio strategaethau allweddol eraill fel cynlluniau rheoli gweithlu ac asedau gyda'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig;<br>• datblygu cynlluniau arbedion amlflwydd cynhwysfawr wedi'u costio'n llawn sy'n sail i'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig ac yn cwmpasu cyfnod y Cynllun, nid y gyllideb flynyddol nesaf yn unig;<br>• categoreiddio cynigion ar gyfer arbedion fel y gellir monitro'r newid o fathau traddodiadol o arbedion i arbedion gweddnewidiol dros gyfnod y Cynllun Ariannol Tymor Canolig; a<br>• sicrhau bod amserlenni ar gyfer cyflawni cynigion penodol ar gyfer arbedion yn realistig a bod atebolrwydd am eu bodloni wedi'i neilltuo'n briodol.<br>A2 Dylai awdurdodau lleol ddatblygu Polisïau Cynhyrchu Incwm a Chodi Tâl corfforaethol.<br>A3 Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod ganddynt strategaeth cronfeydd wrth gefn gynhwysfawr sy'n amlinellu diben penodol cronfeydd werth gefn defnyddadwy a gasglwyd ac effaith a'r defnydd o'r rhain yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig.<br>A4 Dylai awdurdodau lleol ddatblygu Dangosyddion Perfformiad Allweddol i fonitro'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig.<br>A5 Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod cynlluniau arbedion yn ddigon manwl i sicrhau bod aelodau'n eglur am yr hyn y bwriedir i'r cynlluniau ei ddarparu ac y gellir craffu'n briodol ar ddarpariaeth y cynlluniau hynny trwy gydol y flwyddyn.<br>A6 Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod capasiti a gallu corfforaethol ar lefel sy'n gallu cefnogi darpariaeth cynlluniau arbedion yn effeithiol yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar y cyflymder gofynnol. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Hydref 2016 | Diogelwch Cymunedol yng Nghymru | Roedd y saith argymhelliad yn yr adroddiad hwn yn gofyn i amrywiaeth o randdeiliaid - Llywodraeth Cymru, Tîm y Swyddfa Gartref yng Nghymru, comisiynwyr yr heddlu a throseddu, aelodau byrddau gwasanaethau cyhoeddus ac awdurdodau lleol - weithredu'n unigol ac ar y cyd:<br>A1 Gwella cynlluniau strategol er mwyn cydgysylltu gweithgarwch diogelwch cymunedol yn well, trwy sefydlu strategaeth genedlaethol a gefnogir gan gynlluniau rhanbarthol a lleol sy'n canolbwyntio ar gyflawni'r blaenoriaethau diogelwch cymunedol a gytunwyd yn genedlaethol yn lle'r fframwaith cynllunio cyfredol.<br>A2 Gwella gwaith strategol â phartneriaid drwy fynd ati'n ffurfiol i greu byrddau diogelwch cymunedol effeithiol yn lle'r strwythurau diogelwch cymunedol cyfredol, sy'n ffurfioli ac yn uno gwaith Llywodraeth Cymru, yr heddlu, yr awdurdodau lleol, y byrddau iechyd, yr awdurdodau tân ac achub, WACSO a rhanddeiliaid allweddol eraill.<br>A3 Gwella gwaith cynllunio trwy greu cynlluniau gweithredu cynhwysfawr sy'n cynnwys gwaith pob partner ac sy'n nodi'r cyfraniad rhanbarthol a lleol yn glir wrth gyflawni'r blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer diogelwch cymunedol.<br>A4 Adolygu trefniadau arian grant cyfredol a symud i gyllidebau cyfunol sydd ag ymrwymiadau ariannu mwy hirdymor er mwyn cefnogi cyrff cyflawni i wella'r gwaith o gynllunio prosiectau a'r gweithlu, gan ganolbwyntio ar gyflawni blaenoriaethau'r strategaeth diogelwch cymunedol genedlaethol.<br>A5 Sicrhau bod perfformiad diogelwch cymunedol yn cael ei reoli'n effeithiol trwy:<br>• osod mesurau priodol ar bob lefel er mwyn galluogi aelodau, swyddogion a'r cyhoedd i feirniadu'r cynnydd o ran cyflawni camau gweithredu ar gyfer gwasanaethau diogelwch cymunedol;<br>• sicrhau bod yr wybodaeth am berfformiad yn cynnwys gwaith yr holl asiantaethau perthnasol; a<br>• sefydlu mesurau i feirniadu'r mewnbynnau, yr allbynnau a'r effaith er mwyn gallu deall effaith penderfyniadau buddsoddi a chefnogi'r gwaith craffu a throsolwg.<br>A6 Adolygu'r systemau ar gyfer rheoli risgiau diogelwch cymunedol a chyflwyno trefniadau monitro ac adolygu sy'n canolbwyntio ar sicrhau'r cyhoedd bod yr arian a gaiff ei wario ar ddiogelwch cymunedol yn cyflawni canlyniadau gwell i bobl yng Nghymru.<br>A7 Gwella'r gwaith o ymgysylltu a chyfathrebu â dinasyddion trwy'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus wrth:<br>• ddatblygu cynlluniau a blaenoriaethau ar gyfer diogelwch cymunedol;<br>• cytuno ar flaenoriaethau ar gyfer gweithredu; ac<br>• adrodd ar berfformiad a gwerthuso'r effaith. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
| --- | --- | --- |
| Tachwedd 2016 | Trefniadau Awdurdodau Lleol i Godi Tâl am Wasanaethau a Chynhyrchu Incwm | Gwnaeth yr adroddiad hwn wyth argymhelliad, yr oedd chwech ohonynt yn gofyn i awdurdodau lleol weithredu. Roedd argymhellion A4 ac A6 yn gofyn i Lywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru weithredu:<br>A1 Datblygu fframweithiau strategol ar gyfer cyflwyno ac adolygu taliadau, gan greu cysylltiad cadarn rhyngddynt a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig a'r Cynllun Corfforaethol.<br>A2 Adolygu'r costau fesul uned a chyfanswm y gost o ddarparu gwasanaethau dewisol er mwyn nodi unrhyw ddiffygion yn glir a, lle bo angen, gosod targedau i wella'r sefyllfa weithredu gyfredol.<br>A3 Defnyddio'r rhestr wirio asesu effaith (Atodiad 2) bob tro wrth ystyried newid taliadau.<br>A5 Canfod cyfleoedd i gaffael cwmnïau o'r sector preifat i gasglu taliadau, er mwyn gwella effeithlonrwydd a darbodusrwydd wrth gasglu incwm.<br>A7 Gwella'r trefniadau ar gyfer rheoli perfformiad, llywodraethu ac atebolrwydd drwy:<br>• adrodd unrhyw newidiadau i daliadau i'r pwyllgor(au) craffu;<br>• gwella gwaith monitro er mwyn cael dealltwriaeth well o effaith newidiadau i ffioedd a thaliadau ar gais, a chyflawniad amcanion;<br>• meincnodi a chymharu perfformiad ag eraill yn fwy trwyadl; a<br>• darparu gwybodaeth fwy cynhwysfawr i aelodau etholedig fel bo modd gwneud penderfyniadau cadarn.<br>A8 Gwella'r trefniadau ar gyfer rhagfynegi incwm o daliadau drwy gynllunio senarios a dadansoddiadau sensitifrwydd. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Ionawr 2017 | Y Modd y mae Awdurdodau Lleol yn Ariannu Trydydd Sector | Gwnaeth yr adroddiad hwn dri argymhelliad, yr oedd dau ohonynt yn gofyn i awdurdodau lleol weithredu. Roedd argymhelliad A3 yn gofyn i Lywodraeth Cymru weithredu:<br>A1 Er mwyn cael y budd mwyaf o benderfyniadau ariannu, mae angen i awdurdodau lleol a chyrff yn y trydydd sector sicrhau bod ganddynt y trefniadau a'r systemau cywir ar waith i reoli, gwerthuso a mesur eu gwaith gyda'r trydydd sector. Er mwyn helpu awdurdodau lleol a chyrff yn y trydydd sector i ddatblygu eu harferion gwaith, rydym yn argymell y dylai swyddogion awdurdodau lleol a'r trydydd sector ddefnyddio'r rhestr wirio yn Atodiad 3 i wneud y canlynol:<br>• hunanwerthuso cyfranogiad a threfniadau rheoli, perfformiad ac arfer presennol y trydydd sector;<br>• nodi lle mae angen gwella trefniadau cydweithio; a<br>• drafftio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r bylchau a'r gwendidau a nodwyd drwy'r ymarfer hunanwerthuso a'i roi ar waith.<br>A2 Mae trefniadau rheoli perfformiad gwael hefyd yn gwanhau atebolrwydd ac yn cyfyngu ar y gallu i graffu ar weithgarwch a pherfformiad y trydydd sector yn effeithiol. E Er mwyn atgyfnerthu trefniadau goruchwylio ar gyfer y trydydd sector, rydym yn argymell y dylai aelodau etholedig graffu ar y rhestr wirio adolygiadau a gwblheir gan swyddogion a herio perfformiad swyddogion a'r awdurdod lleol o ran mynd i'r afael â bylchau a gwendidau yn rheolaidd. |

Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru